Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Treorci
# Pengelli
# Treorci
# Y Rhondda
# Rhondda Cynon Taf
# CF42 6UL

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Treorci yn ysgol gymunedol gymysg, 11 i 18 oed, a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n ysgol cyfrwng Saesneg gyda darpariaeth Gymraeg sylweddol. Mae'r ysgol yn galluogi disgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg i barhau i astudio tua hanner eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Mae 1,630 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 363 yn y chweched dosbarth. Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd 1,580 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 364 yn y chweched dosbarth. Daw disgyblion o dref Treorci a'r cymoedd o'i hamgylch.

Mae tua 23.3% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 17.4%. Bu canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim tua'r ffigur hwn am y tair blynedd diwethaf. Mae tua 41% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae 24% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion ychwanegol yr ysgol, sydd gerllaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.4%. Mae llai nag 1% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Daw 98% o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae 10% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl a gall 39% siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl. Mae tua 8% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae gan lai nag 1% o ddisgyblion iaith heblaw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2011. Mae'r uwch dîm rheoli'n cynnwys y pennaeth, tri dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl yn Ysgol Gyfun Treorci yn 2015-2016 yw £4,099. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf yw £4,982 a'r lleiafswm yw £3,886. Mae Ysgol Gyfun Treorci yn safle 13 o'r 16 ysgol uwchradd o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- bu gwelliant cyffredinol ym mherfformiad yr ysgol yn y dangosyddion pwysicaf yng nghyfnod allweddol 4 ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil o gyfnodau allweddol blaenorol
- mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, yn gyson uwchlaw deilliannau wedi'u modelu, er bod perfformiad mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith wedi bod yn gymysg
- mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gymwysterau wedi dangos gwelliant cyson am y pedair blynedd diwethaf
- mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu a dangosant lefelau uchel iawn o barch tuag at eraill
- mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion ei disgyblion yn dda
- mae'r ddarpariaeth helaeth ar gyfer y Gymraeg yn caniatáu i bron pob un o'r disgyblion, beth bynnag eu gallu, i ennill cymhwyster ffurfiol mewn Cymraeg mamiaith neu ail iaith
- mae gan yr ysgol ethos cefnogol, cynhwysol a gofalgar iawn ac mae'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i bob disgybl

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn cynnig arweinyddiaeth gadarn a phwrpasol, gyda gweledigaeth gyffredin sy'n rhoi lles a chyflawniad pob plentyn wrth wraidd gwaith yr ysgol
- mae arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau cyson uchel i staff a disgyblion ac yn herio pob aelod o gymuned yr ysgol i gyflawni'n dda
- mae trefniadau rheoli llinell yn yr ysgol yn gadarn ac yn sicrhau bod staff yn cael eu dwyn i gyfrif yn briodol am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad y timau y maent yn eu rheoli
- mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn rhoi her effeithiol i'r pennaeth a'r uwch dîm arwain
- mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn a sefydledig a diwylliant cryf o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
- mae cynllun gwella'r ysgol yn gynhwysfawr, gyda thargedau, strategaethau a meini prawf llwyddiant clir

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella ansawdd adborth i ddisgyblion er mwyn dileu'r anghysondeb rhwng adrannau ac oddi mewn iddynt

A3 Gwella cysondeb hunanarfarnu ar lefel adrannol

A4 Gwella'r broses o arsylwi dosbarthiadau i gynnig arfarniad mwy cywir o ansawdd yr addysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio. Fodd bynnag, bu gwelliant cyffredinol ym mherfformiad yr ysgol yn y dangosyddion pwysicaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil o gyfnodau allweddol blaenorol.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn gyson. Yn y dangosydd hwn, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf ac yn y 50% is am un flwyddyn. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn uwchlaw deilliannau wedi'u modelu yn gyson. Mae canran y disgyblion sy'n ennill pum TGAU A*-A wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf, ond mae uwchlaw canran ysgolion tebyg.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae perfformiad ymhell uwchlaw dangosyddion wedi'u modelu. Mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gymwysterau wedi dangos gwelliant graddol am y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y dangosyddion hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 mewn Saesneg ac mewn mathemateg wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Am dair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ac mae perfformiad mewn mathemateg wedi'i gosod yn y 25% uchaf. Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y prif ddangosyddion wedi dangos cynnydd graddol dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu am y ddwy flynedd diwethaf ac mae islaw cyfartaledd y teulu.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, cyflawnodd yr holl ddisgyblion gymhwyster cydnabyddedig ac roedd bron pob un ohonynt wedi parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio'n well o lawer na bechgyn yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ac mewn Saesneg. Mae cyfran uwch o lawer o ferched na bechgyn yn cyflawni pum TGAU graddau A neu A*. Fodd bynnag, mewn llawer o

ddangosyddion, mae bechgyn a merched yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer y rheiny yn y teulu o ysgolion. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r disgyblion hyn mewn ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, neu'n well na nhw.

Ym Mlwyddyn 13, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3 wedi bod yn uchel ac yn gyson uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a'r awdurdod lleol. Er bod y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog a gyflawnwyd gan ddisgyblion wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf, mae uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a'r awdurdod lleol. Mae canran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A* neu A mewn Safon Uwch wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a'r awdurdod lleol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*-C wedi disgyn yn raddol dros y tair blynedd diwethaf, ond mae'n parhau uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a'r awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil yn eu gwersi ac yn defnyddio'u hamser yn gynhyrchiol. Maent yn gwrando'n dda yn y dosbarth ac yn dilyn cyfarwyddiadau eu hathro yn ofalus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir pan fyddant yn ateb cwestiynau, cymryd rhan mewn trafodaethau a darllen yn uchel i'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau ysgrifennu effeithiol, yn deall sut i strwythuro'u gwaith ysgrifenedig ac yn defnyddio sillafu a gramadeg sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae cystrawen brawddegau a sillafu disgyblion is eu gallu yn llai cywir. Mae'r disgyblion mwy abl yn dangos dealltwriaeth ddyfnach o wahanol arddulliau ysgrifennu a gwerthfawrogiad o fwriadau awduron. Wrth ysgrifennu'n estynedig, gwnânt hynny'n hyderus, gan ddefnyddio strwythurau ac arddull sy'n briodol i'r math perthnasol o destun.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws nifer o bynciau eraill. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau yn hyderus i gyfrifo cymarebau, canrannau a ffracsiynau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol i ddatrys problemau ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn casglu ac arddangos data o nifer o ffynonellau'n ofalus ac yn glir. Defnyddiant amrywiaeth o graffiau priodol i arddangos y data hwn ac mae'r disgyblion mwy abl yn nodi patrymau yn y data i ddod i gasgliadau priodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus yn Gymraeg, yn siarad yn glir ac yn ynganu geiriau yn gywir. Fe wnaeth yr holl ddisgyblion a safodd TGAU Cymraeg mamiaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ennill y cymhwyster, gyda thraean yn ennill graddau A* i C. Mae'r holl ddisgyblion a safodd TGAU Cymraeg ail iaith yn gynnar ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn ennill y cymhwyster, gyda llawer yn cyflawni graddau A* i B. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion a safodd y cwrs TGAU Cymraeg ail iaith llawn ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ennill y cymhwyster.

### Lles: Rhagorol

Mae lles disgyblion yn nodwedd arbennig o gadarn yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus bod yr ysgol yn ymdrin ag unrhyw fwlio yn dda iawn. Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu a dangosant lefelau uchel iawn o barch tuag at eraill. Maent yn falch o'u hysgol a'u cyfraniad at y gymuned leol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cyfrannu'n effeithiol at les a chynnydd disgyblion iau trwy'r mentrau mentora a chyfeillio.

Yn ystod wythnos yr arolygiad, roedd ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac yn amgylchedd yr ysgol o safon uchel iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain ac mae bron pob un o'r disgyblion o'r farn bod yr ysgol yn eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain ac i ymgymryd â chyfrifoldeb.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd ffordd iach o fyw ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn fuddiol yn yr amrywiaeth eang iawn o weithgareddau allgyrsiol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac elusennol, ac yn cyfrannu'n werthfawr tuag atynt. Mae'r rhain yn cynnwys codi arian mewn digwyddiadau elusennol a chynnal clybiau ar ôl ysgol mewn ysgolion cynradd lleol.

Mae presenoldeb wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu am y pedair blynedd diwethaf yn gyson ac mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae nifer yr absenoldebau cyson yn isel.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn effeithiol yn y cyfleoedd sydd ar gael iddynt gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn benodol, mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Fe wnaeth disgyblion gymryd rhan yn y penderfyniad i ddarparu croesfan ar y ffordd fawr y tu allan i'r ysgol a datblygu system draffig unffordd o amgylch yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'r medrau cymdeithasol a bywyd sy'n angenrheidiol i symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf yn eu dysgu neu i waith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu rhagorol sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae darpariaeth drawsgwricwlaidd arloesol yng nghyfnod allweddol 3, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a chryfhau medrau llythrennedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r cwricwlwm yn darparu ystod helaeth o gyrsiau academaidd a galwedigaethol, gan gynnwys cymhwyster integredig Bagloriaeth Cymru. Mae llwybrau dysgu hyblyg hynod effeithiol, ar y cyd â rhaglen ddysgu allgyrsiol ragorol, yn galluogi bron pob disgybl i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r cam nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu waith.

Mae'r ysgol wedi cynllunio'n effeithiol i weithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau cyfathrebu a meddwl disgyblion, a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn arloesol ac yn arwain y sector. Mae'r ddarpariaeth helaeth yn cynnig cyfleoedd rhagorol i bron pob un o'r disgyblion, beth bynnag eu gallu, i ennill cymhwyster ffurfiol mewn Cymraeg mamiaith neu Gymraeg ail iaith. Mae darpariaeth 'Cwrs Carlam' yr ysgol yn galluogi disgyblion mwy abl a thalentog i wneud cynnydd cyflym wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau Cymraeg yn greadigol trwy'r rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol, Eisteddfod yr ysgol a chyrsiau preswyl.

Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant, arferion a thraddodiadau Cymru yn dda.

Mae gan yr ysgol raglen eang ac amrywiol o weithgareddau amser cinio ac ar ôl ysgol i ehangu profiadau dysgwyr, gan gynnwys cyfleoedd ieithyddol, diwylliannol a chyfleoedd chwaraeon. Mae rhaglenni helaeth o brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith, gan gynnwys profiad gwaith, diwrnodau diwydiant a gweithio yn yr ysgol gyda busnesau ac entrepreneuriaid lleol.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth ddatblygedig ar gyfer hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ar draws y cwricwlwm. Mae rhaglen gyfoethog ac amrywiol o weithgareddau i hybu cynaliadwyedd yn ystod sesiynau anogwyr dysgu, gwasanaethau ac mewn gwersi. Mae'r pwyllgor eco yn rhagweithiol iawn wrth godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar yr ysgol a'r amgylchedd ehangach ac mae wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch yn erbyn sbwriel. Mae'n hyrwyddo byw'n gynaliadwy yn dda iawn a dylanwadodd ar benderfyniad yr ysgol i osod paneli solar ar do'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion byd-eang a chynaliadwyedd trwy'r rhaglen Eco-sgolion, masnach deg a chysylltiadau ag ysgol yn Uganda.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu cyson effeithiol wedi cyfrannu at ddeilliannau uchel a chyflawniadau disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn fodelau iaith da iawn ac mae ganddynt wybodaeth dda am eu pwnc. Datblygant berthnasoedd gwaith effeithiol gyda'u disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn ac yn trefnu eu hystafelloedd dosbarth a'u grwpiau o ddisgyblion yn fedrus i gefnogi dysgu effeithiol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n dda gan ddefnyddio arweiniad manwl yr ysgol ar gynllunio gwersi. Maent yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a medrau rhifedd disgyblion lle y bo'n briodol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn trefnu gwaith mewn parau a gwaith grŵp yn effeithiol er mwyn caniatáu i ddisgyblion rannu eu syniadau a chynorthwyo a herio'i gilydd wrth ddatrys problemau. Defnyddiant holi'n effeithiol i asesu dysgu disgyblion ac yn defnyddio tasgau a gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu yn dda i herio disgyblion o bob gallu.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus iawn. Defnyddiant amrywiaeth o adnoddau priodol yn effeithiol ac yn cynllunio ystod o weithgareddau pwrpasol i ysgogi diddordeb disgyblion. Maent yn gosod disgwyliadau uchel iawn i bob disgybl, yn sicrhau bod cyflymder heriol i ddysgu ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol iawn. Maent yn datblygu perthynas waith gadarn gyda'u disgyblion, sy'n gefnogol iawn ac yn dangos parch ar y ddwy ochr. Defnyddiant holi effeithiol iawn trwy gydol eu gwersi i ymestyn a herio dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion.

Mewn ychydig bach iawn o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n briodol ac yn datblygu perthnasoedd gwaith addas. Defnyddiant amrywiaeth addas o adnoddau a gweithgareddau. Fodd bynnag, nid ydynt yn herio pob disgybl yn ddigon da nac yn gosod disgwyliadau digon uchel.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod eu gwersi ac mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r cyngor a roddwyd. Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn aml. Mewn mwyafrif o bynciau, mae athrawon yn rhoi sylwadau ysgrifenedig defnyddiol i helpu disgyblion i wybod pa mor dda a wnaethant a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth o fewn a rhwng adrannau o safbwynt ansawdd yr adborth ysgrifenedig i ddisgyblion. Mewn lleiafrif o bynciau, nid yw sylwadau'n ddigon penodol i alluogi disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith. Mewn llawer o bynciau, mae disgyblion yn cwblhau gweithgareddau hunanasesu defnyddiol yn rheolaidd ac mae hyn yn eu helpu i ddeall sut i wella'u dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn gosod targedau uchelgeisiol i ddisgyblion ac mae arweinwyr yn olrhain cynnydd tuag at y targedau hyn yn effeithiol. Mae hyn yn caniatáu i'r ysgol fonitro perfformiad presennol disgyblion a chynllunio ymyriadau gwerthfawr yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u lefelau neu eu graddau targed a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd gyda'u hanogwr dysgu.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn drylwyr ac yn cynnwys targedau gwella defnyddiol sy'n benodol i bwnc, a chaiff disgyblion gyfle i roi sylwadau ar eu cyflawniadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o safon uchel iawn, sy'n galluogi pob disgybl i lwyddo, ni waeth beth yw eu gallu a'u cefndir. Mae systemau cymorth effeithiol wedi cyfrannu'n dda iawn at lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad.

Mae gan yr ysgol drefniadau hynod effeithiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys eu hannog i gymryd rhan weithgar mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon mewn gwersi, amser cinio ac ar ôl ysgol. Ceir trefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau buddiol, wedi'u cynllunio'n dda trwy'r cwricwlwm, gwasanaethau, amser anogwyr dysgu ac ymweliadau allgyrsiol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion am amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor ac arweiniad priodol ar berthnasoedd personol, camddefnyddio sylweddau ac addysg rhyw.

Mae gan yr ysgol strategaethau hynod lwyddiannus ar gyfer hybu presenoldeb ac ymddygiad da. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o wobrau a chosbau y mae disgyblion yn eu deall yn dda. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y swyddog presenoldeb, penaethiaid dysgu a medrau, ac anogwyr dysgu yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth gwerthfawr unigol. Mae'r dull cydlynus hwn wedi arwain at gynnal y lefelau uchel o bresenoldeb a'r ymddygiad cyson barchus a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae trefniadau hynod effeithiol ar gyfer nodi, cynorthwyo a monitro anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae gan yr ysgol amrywiaeth helaeth o strategaethau effeithiol iawn i gefnogi lles a dysgu disgyblion. Pan fydd angen disgybl wedi'i nodi,

mae arweinwyr yn sicrhau cynllun hynod unigoledig o ymyriadau.  Mae trefniadau cymorth yn cynnwys y grŵp anogaeth, y grŵp cymdeithasol, darllen mewn parau, ymyriadau llythrennedd a rhifedd targedig neu gymryd rhan mewn gweithgaredd preswyl i hybu hunan-barch.  Mae arweinwyr yn monitro ac arfarnu effaith yr ymyriadau hyn yn dda iawn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysgol, therapyddion galwedigaethol a chwnselwyr, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad buddiol i gefnogi lles disgyblion unigol.

Mae'r cynllun hynod effeithiol ar gyfer pontio gyda'r ysgolion cynradd partner yn galluogi disgyblion Blwyddyn 7 i ymgartrefu'n gyflym ac yn hyderus pan fyddant yn ymuno â'r ysgol.  Mae trefniadau'n arbennig o effeithiol ar gyfer disgyblion newydd sy'n agored i niwed.  Mae'r ysgol yn rhoi amrywiaeth eang o gyngor ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac ôl 16 i'w galluogi nhw i ddewis pynciau addas a chynllunio ar gyfer eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ethos cefnogol, cynhwysol a gofalgar iawn sy'n adlewyrchu ei gwerthoedd craidd, sef parch tuag at ei gilydd, safonau hunanddisgyblaeth uchel a gwaith caled, yn dda iawn.  Caiff yr holl ddisgyblion eu parchu a'u gwerthfawrogi ni waeth beth yw eu gallu a'u cefndir, a chânt eu herio i gyflawni eu potensial llawn.

Mae'r ysgol yn galluogi pob disgybl i fanteisio'n gyfartal ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol ac ennill cymwysterau yn ôl eu gallu a'u diddordebau.  Mae'r ysgol wedi datblygu amgylchedd parchus a goddefgar iawn lle caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hannog bob amser.  Mae disgyblion ac athrawon yn parchu eu barn a'u safbwyntiau ei gilydd ac yn cydweithio'n gynhyrchiol iawn.  Mae'r rhain yn nodweddion eithriadol yn yr ysgol.

Caiff yr adeiladau, gan gynnwys ystafelloedd a chyfleusterau arbenigol, eu cynnal a chadw'n dda.  Mae gan yr ysgol raglen dreigl, effeithiol o wella'r amgylchedd ffisegol.  Mae arddangosfeydd ysgogol a lliwgar mewn ystafelloedd dosbarth a choridorau i gefnogi dysgu disgyblion.  Mae cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu rhagorol a threfniadau priodol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 brynu a defnyddio'u dyfeisiau electronig eu hunain yn eu dysgu.  Mae adnoddau dysgu i ddisgyblion eu defnyddio mewn ystafelloedd dosbarth ac mewn meysydd eraill yn cefnogi eu dysgu yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'i uwch dîm arwain yn cynnig arweinyddiaeth gadarn a phwrpasol. Gyda'i gilydd, maent wedi sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn rhannu gweledigaeth gyffredin sy'n rhoi lles a chyflawniad pob disgybl wrth wraidd gwaith yr ysgol. Yn benodol, maent wedi sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn deall ac yn ymgorffori gwerth craidd yr ysgol, sef parch.

Mae arweinwyr uwch ac arweinwyr canol yn cyfleu disgwyliadau cyson uchel i staff a disgyblion. Maent yn herio pob aelod o gymuned yr ysgol i gyflawni'n dda. Deellir rolau a chyfrifoldebau ar bob lefel yn glir ac maent yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Mae cydbwysedd priodol o gyfrifoldebau yn rolau arweinwyr canol ac arweinwyr uwch ac mae hyn yn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n dda. Mae ffordd yr ysgol o ddatblygu gallu arweinyddiaeth y staff trwy strategaethau fel secondiadau i rolau arwain yn arbennig o effeithiol.

Mae trefniadau rheoli llinell yn yr ysgol yn gadarn ac yn sicrhau bod staff yn cael eu dwyn i gyfrif yn llawn am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad y timau y maent yn eu rheoli. Mae cyfres o gyfarfodydd yn cefnogi'r trefniadau hyn yn dda. Cânt eu cynnal yn rheolaidd, mae ganddynt agendâu priodol a rhoddant lwyfan cadarn ar gyfer gwella trwy nodi camau gweithredu clir a monitro cynnydd tuag at y rhain.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd cynhyrchiol o ddata i ddadansoddi perfformiad a gwneud y mwyaf o gyflawniadau pob disgybl. Mae'r ysgol yn gosod targedau heriol i ddisgyblion, ac os bydd tystiolaeth na fydd y rhain yn cael eu bodloni o bosibl, bydd ymyriadau'n digwydd yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad staff yn gadarn, gan gynnwys trefniadau ffurfiol i reoli perfformiad. Lle ceir tanberfformio, caiff ei nodi'n gyflym a'i herio'n gadarn, a rhoddir camau gweithredu effeithiol ar waith i sicrhau gwelliant.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi cymorth pwrpasol i'r ysgol. Mae'n derbyn gwybodaeth drylwyr iawn am berfformiad yr ysgol gan y pennaeth ac uwch arweinwyr. Mae'n cynnwys disgyblion yn dda yn ei drafodaethau ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldeb gydag uniondeb. Fodd bynnag, er ei fod yn cefnogi'r ysgol yn dda, megis dechrau datblygu y mae ei rôl o ran herio'r ysgol i wneud yn well.

Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol wedi sicrhau cyfraddau presenoldeb da iawn, safonau uchel o ran lles ac ymddygiad a darpariaeth ddysgu gryf sy'n eang a chytbwys, ac sy'n bodloni anghenion dysgwyr unigol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu diwylliant cryf o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae hyn wedi'i seilio ar weithdrefnau cadarn a sefydledig sy'n barhaus, yn fyfyriol ac wedi'u hintegreiddio ar bob lefel yn yr ysgol. Mae'r prosesau hyn wedi helpu arweinwyr i ddatblygu dealltwriaeth glir o gryfderau niferus yr ysgol a'i meysydd i'w datblygu ymhellach. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i gynllunio strategaethau effeithiol ar gyfer gwella.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata ar berfformiad, ynghyd â thystiolaeth uniongyrchol arall. Mae arweinwyr yn cynnal arsylwadau gwersi mynych ac yn craffu ar waith disgyblion i arfarnu safonau ac ansawdd yr addysgu a'r asesu. Fodd bynnag, mae barnau cyffredinol yr ysgol ynghylch ei haddysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn rhy hael.

Mae pwyslais clir ar fonitro cynnydd disgyblion yn erbyn targedau adrannol a thargedau ysgol gyfan er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae'r ysgol yn defnyddio'r dystiolaeth hon yn effeithiol i amlygu'r prif gryfderau a'r meysydd y mae angen iddi eu gwella.

Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n agos gydag arweinwyr canol i gefnogi eu hunanarfarnu. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl a chynhwysfawr iawn o berfformiad disgyblion. Mae llawer o adroddiadau hunanarfarnu arweinwyr canol yn rhoi dadansoddiad defnyddiol o ddata ar berfformiad ac maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adroddiadau'n amrywio'n ormodol.

Mae'r uwch dîm arwain yn defnyddio'r wybodaeth o hunanarfarnu yn effeithiol i lywio blaenoriaethau cynllunio strategol a gosod targedau heriol. Mae gan yr ysgol dair prif flaenoriaeth strategol, sef deilliannau disgyblion, darpariaeth a datblygu medrau dysgu annibynnol a chyd-ddibynnol disgyblion. Mae cymuned yr ysgol yn deall y rhain yn dda. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i gynllunio'n llwyddiannus ar gyfer sicrhau gwelliannau yn y rhan fwyaf o ddeilliannau disgyblion, yn natblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac yn eu lles.

Mae cynllun gwella'r ysgol, sy'n cael ei lunio gan yr uwch dîm arwain, yn gynhwysfawr ac mae ganddo dargedau, strategaethau a meini prawf llwyddiant clir. Mae cynlluniau arweinwyr canol, sy'n dilyn yr un fformat, yn cynnwys y tair blaenoriaeth strategol ynghyd â blaenoriaethau datblygu sy'n benodol i'w meysydd cyfrifoldeb. Mae'r rhain yn gynlluniau trylwyr, o safon dda yn gyson. Ar y cyd â chynllun gwella'r ysgol, cynigiant ddull effeithiol o fynd i'r afael â blaenoriaethau adrannol a blaenoriaethau ysgol gyfan.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau helaeth a hynod effeithiol, sy'n dwyn buddion rhagorol i ddisgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Dyma gryfder arwyddocaol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau cryf iawn gyda rhieni. Maent yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn teimlo'u bod yn gallu troi at yr ysgol os oes ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon, a chânt wybodaeth dda.

Mae cysylltiadau hynod ddatblygedig a blaengar gydag ysgolion cynradd clwstwr, sy'n cynnwys amser yn yr amserlen i staff o'r ysgol addysgu yn yr ysgolion cynradd. Mae hyn yn cynnig cymorth pontio hynod effeithiol i ddisgyblion, a chaiff effaith gadarnhaol iawn ar eu dysgu a'u cynnydd, yn enwedig ar gyfer llythrennedd a'r Gymraeg.

Mae gan yr ysgol drefniadau cydweithredol hirsefydlog gydag ysgolion eraill yng Nghonsortia 14-19 Rhondda, sy'n cynnig llwybrau dysgu gwerthfawr iawn i ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio'n dda, mae o safon uchel ac mae adnoddau da ar ei chyfer.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol iawn gyda busnesau lleol a rhyngwladol i sicrhau lleoliadau profiad gwaith o ansawdd uchel i ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5. Mae'r partneriaethau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau a chodi eu hymwybyddiaeth o lwybrau gyrfaol, gan gynnwys prentisiaethau.

Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid strategol ar draws y rhanbarth. Mae ganddi rôl flaenllaw mewn datblygu methodolegau addysgu effeithiol ac mae'n rhannu'r rhain gydag ysgolion partner. Mae'r ysgol yn rhoi cymorth i ysgol "Llwybr at Lwyddiant" a hi yw ysgol "Hwb" arweiniol y rhanbarth ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon eithriadol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phrifysgol bartner i ddatblygu rhaglenni athrawon dan hyfforddiant.

**Rheoli adnoddau: Da**

